Fersiwn Hawdd ei Deall

# Y Grŵp Trawsbleidiol ar Anabledd Dysgu




**Nodiadau o’r chweched cyfarfod, a gynhaliwyd ar 27 Medi 2023.**

**Cynhaliwyd y cyfarfod ar Zoom.**



## Pobl a ddaeth i'r cyfarfod

- **Sioned Williams AS** – Aelod o'r Senedd, Cadeirydd
- **Sara Pickard –** Mencap Cymru, Cyd-Ysgrifennydd
- **Sam Williams –** Anabledd Dysgu Cymru, Cyd-Ysgrifennydd
- **Andrea Meek –** Prifysgol Caerdydd
- **Carys West –** Cyngor Sir Wrecsam
- **Coryn Jones –** GIG Cymru
- **Debbie Oliver –** Cyngor Caerdydd
- **Deborah Lomas –** rhiant
- **Debra Cooper**
- **Emma Alcock –** Pobl yn Gyntaf Rhondda Cynon Taf
- **Gail Devine –** Cymdeithas Sefydliadau Gwirfoddol Pen-y-bont ar Ogwr (BAVO)
- **Glenda Lloyd Evans –** Llywodraeth Cymru
- **Grace Coppock –** Fforwm Cymru Gyfan
- **Hannah Offord –** Cyngor Sir Powys
- **Ishbel Hansen –** Fforwm Rhieni a Gofalwyr Abertawe
- **Jackie Grice**
- **Jan Webster –** Mirus

- **Janice Managhan –** Cyngor Sir Penfro
- **Janis Griffiths**
- **Jenny Powell –** Ymgyrch Stryd Tudor
- **Joe Powell –** Pobl yn Gyntaf Cymru
- **Jonathan Davies –** Cyngor Sir Powys
- **Kai Jones –** Anabledd Dysgu Cymru
- **Kate Young –** Mencap Cymru
- **Kathryn Morgan –** Cysylltu Bywydau
- **Kelly Stuart –** Pobl yn Gyntaf Cymru Gyfan
- **Marg McNeill –** See Around Britain
- **Mena Kasem –** PA
- **Natalie Ballett –** GIG Cymru
- **Nicholas Jones –** Mirus
- **Paul Hunt –** Mencap Cymru
- **Rachel Roberts –** Cyngor Sir Powys
- **Rachel Stinchcombe –** Mirus
- **Rhian Jones –** Drive
- **Ron Woods –** Ymddiriedolaeth Innovate
- **Sandra Spratt –** Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Abertawe
- **Sarah Griffiths –** Ymgyrch Tudor Street
- **Simon Rose –** Anabledd Dysgu Cymru
- **Sion Jones –** Mencap Cymru
- **Wayne Crocker –** Mencap Cymru
- **Zarah Kaleem –** Pobl yn Gyntaf Caerdydd
- **Zoe Richards –** Anabledd Dysgu Cymru



## Pobl a ddywedodd nad oeddwn nhw'n gallu dod i'r cyfarfod

- **Jane Dodds –** Aelod o'r Senedd
- **Julian Hallet –** Cymdeithas Syndrom Down (Cymru)

# Gwybodaeth am y ddogfen hon




Fersiwn hawdd ei deall yw'r ddogfen hon. Mae'r geiriau a'r hyn maen nhw'n ei feddwl yn hawdd i'w darllen a'u deall.



Gallai'r geiriau mewn **ysgrifen las trwm** fod yn anodd eu deall. Mae eglurhad ynghylch pob un o'r geiriau hyn wedi'i gynnwys mewn blwch o dan y gair. Gallwch weld beth yw ystyr yr holl eiriau **glas** ar **dudalen 20**.

## 1. Croeso a chyflwyniadau




Croesawodd **Sioned Williams**, Aelod o’r Senedd a **Chadeirydd** y Grŵp Trawsbleidiol, bawb i’r cyfarfod.

**Cadeirydd** y grŵp yw'r person sy'n arwain y cyfarfodydd.

## 2. Adroddiad Mencap ar wasanaethau dydd



Siaradodd **Sara Pickard** a **Paul Hunt** am adroddiad Mencap Cymru ar wasanaethau dydd.



Roedd yr adroddiad yn sôn am yr hyn yr oedd pobl ag anableddau dysgu a'u teuluoedd wedi'i ddweud mewn arolwg am eu gwasanaethau dydd.




Gofynnodd yr arolwg gwestiynau i bobl am eu gwasanaethau dydd cyn ac ar ôl pandemig COVID-19.




Cafodd y rhan fwyaf o wasanaethau dydd eu cau yn ystod y pandemig. Mae llawer ohonynt yn parhau i fod ar gau.



Dywedodd pobl nad oedd unrhyw un wedi gofyn iddynt am eu barn ynghylch cau gwasanaethau dydd.




Dywedodd y bobl hefyd na chawsant unrhyw wybodaeth ynghylch pryd y byddai'r gwasanaethau dydd hynny yn agor eto.



Mewn achosion lle mae gwasanaethau dydd wedi ailagor, mae llawer o bobl wedi dweud nad oes modd iddynt fynd am gynifer o oriau â'r adeg cyn y pandemig.



Dywedodd Sara y dylai cynghorau lleol gydweithio â phobl ag anableddau dysgu a'u teuluoedd er mwyn cynllunio gwasanaethau. **Cydgynhyrchu** yw'r enw ar hyn.



Mae **cydgynhyrchu** yn golygu bod pobl sy'n defnyddio gwasanaethau yn cael eu cynnwys ym mhob penderfyniad. Maent yn cael eu gweld fel partneriaid sy’n gyfartal â’r staff sy'n darparu gwasanaethau.

Nid yw **cydgynhyrchu** bob amser yn hawdd.



Efallai y bydd staff sy'n darparu gwasanaethau yn ei chael hi'n anodd rhannu pŵer a rheolaeth.



Efallai y bydd angen cymorth ar rai pobl i rannu eu syniadau, yn enwedig os nad oes unrhyw un wedi gofyn iddynt am eu syniadau o’r blaen.



Fodd bynnag, gall cydweithio arwain at wella gwasanaethau. Mae hefyd yn rhoi dewis a rheolaeth i bobl wrth iddynt fyw eu bywydau.



Yn ystod y pandemig, defnyddiodd llawer o bobl dechnoleg i gadw mewn cysylltiad ag eraill, gan gynnwys galwadau fideo, apiau a gwefannau.



Fodd bynnag, mae angen i bobl gael dewisiadau o ran sut i gysylltu ag eraill a defnyddio gwasanaethau.



Mae rhai pobl yn parhau i fod am gwrdd ag eraill yn y cnawd a mynd i weithgareddau yn y gymuned.



Mae cyfeillgarwch a pherthnasoedd yn bwysig iawn. Pan fydd gwasanaethau dydd yn cau, gall fod yn anodd i bobl weld eu ffrindiau.




Os na all pobl fynd i wasanaethau dydd mwyach, rhaid iddynt barhau i allu gweld eu ffrindiau a'r bobl y maent yn gofalu amdanynt.



Nid yw helpu pobl i fynd i leoedd fel caffis neu ganolfannau hamdden yn unig yn ddigon.



Mae rhai gwasanaethau dydd yn ei chael hi'n anodd recriwtio digon o staff. Gallai hyn fod oherwydd nad yw staff sy'n gweithio mewn gwasanaethau dydd yn ennill digon o arian.




Mae rhai cynghorau lleol yn ystyried caniatáu i bobl ddewis gweithgareddau gwasanaeth dydd sy'n para chwe wythnos bob tro.



Gallai hyn ei gwneud hi'n anodd i rai sefydliadau sy'n cynnal gweithgareddau dydd barhau i weithredu. Mae'n bosibl nad oes ganddyn nhw ddigon o arian.




Dywedodd Paul fod Mencap Cymru yn mynd i ddosbarthu'r arolwg eto er mwyn canfod a oes unrhyw beth wedi newid i bobl.


# 3. Ymgyrch i ailagor y gwasanaeth dydd ar Stryd Tudor



Siaradodd **Sarah Griffiths** a **Jenny Powell** am yr **ymgyrch** i ailagor y gwasanaeth dydd ar Stryd Tudor yn y Fenni.




Mae **ymgyrch** yn ffordd o ddweud wrth bobl am rywbeth pwysig. Fel arall, mae'n ffordd o geisio newid rhywbeth, fel polisi neu'r ffordd y mae pobl yn meddwl.




Roedd 'Fy Niwrnod, Fy Mywyd', sef gwasanaeth dydd a ddarparwyd mewn adeilad ar Stryd Tudor yn y Fenni, yn arfer cefnogi pobl ag anableddau dysgu.



Cafodd yr adeilad ei gau yn ystod y pandemig, ac nid yw byth wedi agor eto.



Dywedodd y cyngor nad oedd angen yr adeilad bellach.



Dywedodd y cyngor nad oedd modd cynnal gwasanaeth ‘Fy Niwrnod, Fy Mywyd’ gan nad oedd digon o bobl angen cymorth.



Dywedodd hefyd fod angen gwneud llawer o waith ar yr adeilad cyn y bydd modd ei ddefnyddio eto.



Roedd pobl yn ddig iawn am y ffaith nad oedd y cyngor wedi ceisio eu barn ynghylch cau’r gwasanaeth ar Stryd Tudor.




Dywedodd y bobl y dylai'r cyngor fod wedi gwneud adolygiad llawn o'r gwasanaeth a gofyn i’r bobl beth oedd eu barn.




Dywedodd y cyngor y byddai’n cynnal adolygiad.




Gofynnodd y cyngor i nifer fach o bobl a oedd yn defnyddio gwasanaeth ‘Fy Niwrnod, Fy Mywyd’ a'u teuluoedd am eu barn ynghylch y gwasanaeth.



Dywedodd pobl eu bod yn hoffi llawer o'r gweithgareddau yr oeddent yn arfer eu gwneud cyn i’r gwasanaeth ar Stryd Tudor gau.



Roeddent yn drist am y ffaith bod yr adeilad ar gau, ac am y ffaith nad oedd llawer o'r gweithgareddau'n cael eu cynnal mwyach.



Roeddent hefyd yn drist nad oedd cyfle iddynt weld eu ffrindiau o'r gwasanaeth dydd mwyach.



Dywedodd y bobl y dylai'r rhai sy'n defnyddio'r gwasanaeth helpu'r broses o gynllunio'r gweithgareddau, a dylent gael dewis yr hyn y maent am ei wneud.



Maent am gael mwy o weithgareddau a mwy o ddewis.





Yn ogystal, gwnaeth y bobl ofyn i'r staff a oedd yn gweithio i 'Fy Niwrnod, Fy Mywyd' beth oedd eu barn am y gwasanaeth.




Dywedodd y staff nad oedd y gwasanaeth dydd wedi bod cystal ers y pandemig.



Mae rhai gweithgareddau'n anodd eu cynnal pan mai dim ond un person ac un aelod o staff sy'n cymryd rhan.



Weithiau, nid oes gan staff ddigon o amser i gynllunio gweithgareddau.




Mae angen i staff weld cynlluniau gofal pobl er mwyn iddynt allu sicrhau eu bod yn deall eu hanghenion.



Mae'r cyngor wedi edrych ar y pethau a ddywedwyd gan bobl yn yr adolygiad. Fodd bynnag, dyw'r cyngor heb agor y gwasanaeth dydd ar Tudor Street o hyd.



Mae grŵp o bobl sydd am weld y gwasanaeth ar Stryd Tudor yn cael ei ailagor wedi bod yn **protestio** tu allan i'r adeilad.



Mae **protestio** yn ffordd o ddangos nad ydych yn cytuno â rhywbeth. Gallwch **brotestio** mewn llawer o wahanol ffyrdd, gan gynnwys mynd ar orymdaith neu osod posteri.



Mae'r grŵp yn ddig nad yw'r cyngor yn gwrando ar ddymuniadau pobl ag anableddau dysgu a'u teuluoedd sy'n byw yn y Fenni.



Dywedodd aelodau'r grŵp y byddent yn helpu'r broses o drwsio'r adeilad a'i wneud yn barod i'w ailagor.



Yn ogystal, dywedodd aelodau'r grŵp y byddai modd iddynt weithio gyda'r cyngor er mwyn dod o hyd i ffyrdd o wneud y gwasanaeth ar Stryd Tudor yn well i'r gymuned gyfan.



Fodd bynnag, nid ydynt yn teimlo bod y cyngor yn gwrando.

## 4. Cwestiynau a syniadau



Ar ôl y cyflwyniad, gofynnodd rhai pobl gwestiynau, a rhannodd rhai eu syniadau.



Dywedodd Wayne Crocker o Mencap Cymru fod Julie Morgan, y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol, wedi gofyn am adolygiad o wasanaethau dydd ers pandemig COVID-19.




Bydd Grŵp Cynghori'r Gweinidog ar Anabledd Dysgu yn edrych ar yr adroddiad ynghylch yr adolygiad.



Gobeithiwn y bydd Aelodau o'r Senedd hefyd yn darllen yr adroddiad.




Dywedodd Rachel Stinchcombe o Mirus fod y sefydliad wedi holi pobl ag anableddau dysgu y maent yn eu cefnogi am y gwasanaethau dydd y maent wedi'u cael ar ôl y pandemig.




Dywedodd llawer o bobl wrth Mirus nad oeddent bellach am ddychwelyd i'w hen wasanaethau dydd.



Yn hytrach, mae Mirus yn helpu pobl i gymryd rhan mewn gweithgareddau yn eu cymunedau.



Mae'n bwysig bod pobl ag anableddau dysgu yn cael dewisiadau ynghylch yr hyn y maent yn ei wneud a sut y cânt eu cefnogi.



Bydd Sioned yn ysgrifennu at Julie Morgan, y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol, er mwyn gofyn iddi siarad â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru am y broses o **gydgynhyrchu**.



Bydd y llythyr yn egluro bod **cydgynhyrchu** yn bwysig iawn i bobl ag anableddau dysgu a'u teuluoedd.



Fodd  bynnag, mae **cydgynhyrchu** yn golygu mwy na gofyn i bobl beth yw eu barn. Rhaid ymgymryd â'r broses mewn ffordd lle gall pobl gymryd rhan yn iawn.



**Ni ddylai** cynghorau lleol gau gwasanaethau ar gyfer pobl ag anableddau dysgu **heb** ofyn iddyn nhw a'u teuluoedd am eu barn.




Dylai pobl ag anableddau dysgu a'u teuluoedd fod yn rhan o unrhyw gynlluniau i newid gwasanaethau neu ddarparu gwasanaethau newydd.




Bydd y llythyr at Julie Morgan hefyd yn gofyn a fydd pawb yn gallu darllen yr adroddiad ynghylch yr adolygiad o wasanaethau dydd. Hynny yw, nid Llywodraeth Cymru a'r Senedd yn unig.

## 5. Unrhyw fater arall, a syniadau ar gyfer cyfarfodydd yn y dyfodol





Dywedodd Sioned y byddai'n ysgrifennu eto at Lee Waters, y Dirprwy Weinidog sy'n gyfrifol am drafnidiaeth, am y problemau y mae pobl ag anableddau dysgu wedi'u profi o ran cael tocyn bws newydd.



Bydd hi hefyd yn dweud wrth y Dirprwy Weinidog fod angen gwell hyfforddiant ar yrwyr sy'n gweithio ar fysiau mewn perthynas â gweithio gyda phobl ag anableddau dysgu.



Mae Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg y Senedd yn ceisio canfod a yw plant a phobl ifanc anabl yn cael yr un cyfleoedd addysg a gofal plant y mae plant nad ydynt yn anabl yn eu cael.




Gallwch gael rhagor o wybodaeth am yr hyn y mae'r Pwyllgor wedi'i ganfod a sut y gallwch rannu eich barn ar wefan y Senedd: [https://busnes.senedd.cymru/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=40923](https://busnes.senedd.cymru/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=40923).




Diolchodd Sioned i bawb a siaradodd yn ystod y cyfarfod.



Os oes gan unrhyw un syniadau am bethau pwysig i'w trafod yn y cyfarfod nesaf, gallwch anfon neges e-bost at Sam Williams: samantha.williams@ldw.org.uk; neu Sara Pickard: SaraE.Pickard@mencap.org.uk.




Cynhelir y cyfarfod nesaf drwy gyfrwng Zoom ar 12 Rhagfyr 2023 am 12.15.




Gallwch ddod o hyd i holl agendâu'r grŵp trawsbleidiol, ynghyd â'r holl nodiadau ynghylch ei gyfarfodydd, yma: [https://www.ldw.org.uk/cy/project/grwp-trawsbleidiol-ar-anabledd-dsygu/](https://www.ldw.org.uk/cy/project/grwp-trawsbleidiol-ar-anabledd-dsygu/)

# Geiriau anodd

## Cadeirydd
Cadeirydd y grŵp yw'r person sy'n arwain y cyfarfodydd.

## Cydgynhyrchu
Mae cydgynhyrchu yn golygu bod pobl sy'n defnyddio gwasanaethau yn cael eu cynnwys ym mhob penderfyniad. Maent yn cael eu gweld fel partneriaid sy'n gyfartal â'r staff sy'n darparu gwasanaethau.

## Ymgyrch
Mae ymgyrch yn ffordd o ddweud wrth bobl am rywbeth pwysig. Fel arall, mae'n ffordd o geisio newid rhywbeth, fel polisi neu'r ffordd y mae pobl yn meddwl.

## Protestio
Mae protestio yn ffordd o ddangos nad ydych yn cytuno â rhywbeth. Gallwch brotestio mewn llawer o wahanol ffyrdd, gan gynnwys mynd ar orymdaith neu osod posteri.